

Eating Better

# *Eating Better* yn y Gwledydd

## Adolygu polisïau

# Yr adroddiad hwn

Mae angen i'r gwaith o gyflwyno deiet iach a chynaliadwy ar draws pedair gwlad y DU fod yn seiliedig ar bolisi cenedlaethol cydgysylltiedig sy'n cefnogi ein ffermwyr, yn gwarchod ein hamgylchedd ac yn sicrhau mynediad cyfartal a theg at fwyd iach a chynaliadwy. Datblygwyd yr adnodd hwn ar gyfer y rheini sy'n gweithio ar bolisi bwyd yn y DU; mae'n rhoi trosolwg o bolisi bwyd ar draws y pedair gwlad, gan nodi cynnydd yn erbyn camau gweithredu o fap *Better by Half Eating Better*, gan gynnig golwg gychwynnol ar gyfleoedd a meysydd gweithredu ar draws y gwledydd.

Mae tair nod i'r adnodd hwn:

- Meincnodi llywodraethau cenedlaethol ar eu polisïau bwyd a ffermio er mwyn nodi meysydd o arfer gorau, annog arloesedd a sbarduno cynnydd tuag at drawsnewid systemau bwyd.
- Darparu trosolwg o bolisi bwyd ledled y DU ar gyfer y rheini sy'n gweithio yn y sector polisi.
- Tynnu sylw at feysydd gweithredu ar gyfer cydweithredu cenedlaethol ac ar draws y DU rhwng llunwyr polisïau, gweithredwyr ar lawr gwlad, a chyrff anllywodraethol.



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Negeseuon allweddol | 4 |
| Penawdau ar draws y gwledydd | 5 |
| Cyflwyniad | 6 |
| Camau Gweithredu'r Map *Better by Half* | 7 |
| Policy review | 8 |
| Yr Alban | 9 |
| Cymru | 15 |
| Gogledd Iwerddon | 22 |
| Lloegr | 29 |
| Crynodeb | 36 |
| Atodiad | 37 |
| Diolchiadau | 41 |

# Negeseuon allweddol




## Datganoli yw'r allwedd i ddatgloi diwygiadau i system fwyd y DU

Mae gan bob un o'r pedair gwlad eu hanes a'u diwylliannau bwyd unigryw eu hunain, gydag enghreifftiau o'r gwaelod i fyny ac enghreifftiau unigryw yn dangos bod newid yn bosibl. Mae datganoli wedi golygu bod yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn gallu gweithredu diwygiadau uchelgeisiol i bolisi bwyd er mwyn prif-ffrydio deietau iach a chynaliadwy. Felly, gall polisi bwyd datganoledig fod yn unigryw i bob gwlad, gan sbarduno ras i'r brig yn y DU ar yr un pryd drwy ddiwygio polisi bwyd, tra bod cyllidebau digonol yn hanfodol ar gyfer cyflawni. Er mwyn i bedair gwlad y DU wireddu'r potensial hwn, rhaid i bob Llywodraeth gysoni polisïau amaeth, hinsawdd, defnydd tir a bwyd, ar yr un pryd â chydlynu ag awdurdodau lleol, Llywodraeth y DU a gweithredwyr ar lawr gwlad.



## Nid oes cysondeb o ran deiet iach a chynaliadwy yn y gwledydd, ac nid yw polisïau'n gwneud fawr ddim i helpu

Mae deiet gwael yn endemig ar draws y gwledydd. Yn y bedair gwlad, mae polisi i gywiro hyn yn canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar iechyd, gan fethu ag ymgorffori nodau cynaliadwyedd mewn canllawiau deietegol. Er bod cynnydd mewn rhai agweddau ar bolisi ar draws gwahanol lywodraethau'r DU, yn gyffredinol mae llawer mwy i'w wneud o hyd i sicrhau gostyngiad o 20% yn y defnydd o gig a chynnyrch llaeth yn y DU erbyn 2030 fel yr argymhellwyd gan y *Climate Change Committee*, ac er mwyn symud i gael cig a chynnyrch llaeth 'gwell'. O ystyried y defnydd eang o'r Canllaw Bwyta'n Iach, mae cyfle i gael dull cydlynol o gysoni canllawiau deietegol a safonau bwyd ysgolion ar draws y DU er mwyn bodloni nodau cynaliadwyedd ac iechyd.



## Mae angen Strategaethau Bwyd i ail-alinio pob agwedd ar y system fwyd

SMae gan yr Alban y Ddeddf *Good Food Nation*, ac mae Cymru wedi gwneud rhywfaint o gynnydd ac wedi gosod uchelgais o ran mynd i'r afael â heriau critigol sy'n ymwneud â bwyd. Yn y cyfamser, mae gweithredu wedi arafu yng Ngogledd Iwerddon a Lloegr neu wedi bod yn ddiffygiol. Mae angen strategaethau cynhwysfawr ar gyfer integreiddio cynlluniau amaethyddol newydd a thargedau hinsawdd i bolisi bwyd yn gyffredinol. Mae angen cyllid a chymorth ar ein ffermwyr a'n garddwyr i symud tuag at ddulliau ffermio sy'n ystyriol o natur a'r hinsawdd, a gall polisi bwyd cydgysylltiedig ein helpu i wella iechyd a chynaliadwyedd deiet ein cartrefi, caffael bwyd cyhoeddus a bwyd mewn ysgolion. Dylai polisi'r Llywodraeth gefnogi a chynyddu'r gwaith o ddiwygio'r system fwyd ar lawr gwlad, gan gyfuno â datblygu polisi ar lefel leol lle bo hynny'n berthnasol. Dyma faes lle gallai cyfnewid arferion gorau rhwng llywodraethau datganoledig ddatblygu camau gweithredu ar lawr gwlad ledled y DU.

# Penawdau ar draws y gwledydd

## Yr Alban:

- Yr Alban sydd â'r **strategaeth fwyd a ffermio trawsadrannol fwyaf cynhwysfawr** yn unrhyw un o bedair gwlad y DU.
- Nid oes diffiniad yn dal i fod o ddeietau cynaliadwy ym mholisi'r llywodraeth, **sy'n hepgoriad a adlewyrchir yn y diffyg cyngor ynghylch bwyd cynaliadwy** mewn canllawiau deietegol.
- Mae Gweledigaeth yr Alban ar gyfer Amaethyddiaeth yn gosod llwyfan ar gyfer **gwaith uchelgeisiol i drosi i ffermio sy'n ystyriol o natur**, ond mae angen integreiddio'n well â pholisi hinsawdd a bwyd yn ehangach.

## Cymru:

- Ar hyn o bryd, mae Cymru'n **gweithredu heb strategaeth fwyd genedlaethol**, na diffiniad o beth yw deiet iach a chynaliadwy. Dylai fod yn brif flaenoriaeth i roi'r naill a'r llall ar waith.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pŵer diwylliannau bwyd lleol drwy **ddarparu cyllid ar gyfer partneriaethau bwyd traws-sector** sy'n arwain y gad yn y DU. Gellid gwella effaith y cyllid hwn drwy fwrw ymlaen â'r Strategaeth Bwyd Cymunedol a addawyd.
- Mae Deddf Amaeth (Cymru) 2023 yn gam hanfodol tuag at drawsnewid y system fwyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio **fframwaith datblygu cenedlaethol** mewn ymgais i gydbwyso pwysau defnydd tir sy'n cystadlu â'i gilydd, er bod angen rhagor o eglurder ynghylch pa mor dda y mae'n integreiddio â'r **Cynllun Ffermio Cynaliadwy** ac offerynnau cynllunio eraill.

## Lloegr:

- **Nid yw Papur Gwyn y Strategaeth Fwyd wedi gwneud fawr ddim** i wella iechyd a chynaliadwyedd deietau yn Lloegr.
- Mae'r **Cynlluniau Rheoli Tir Amgylcheddol** yn gyfle cyffrous i ffermio mewn ffordd sy'n ystyriol o natur; os ydynt yn cael eu hwyluso'n gywir, gellir gwneud cynnydd sylweddol ar well cig a chynnyrch llaeth. **Ond mae'r cyllid a'r cymorth a gynigir i ffermwyr ar hyn o bryd yn annigonol i gyflawni'r nodau hyn.**
- Mae'r cyfuniad o ddiffyg strategaeth bwyd, dim cynllun defnydd tir, a methu targedau ar gyfer deiet cynaliadwy mewn polisi newid yn yr hinsawdd, **yn peri risg na fydd manteision posibl cynlluniau amaethyddol newydd yn cael eu gwireddu.**

## Gogledd Iwerddon:

- Mae **Strategaeth Fwyd Genedlaethol yn cael ei datblygu ar hyn o bryd,** ond collwyd momentwm oherwydd ansicrwydd gwleidyddol.
- Mae'r sector Amaeth yng Ngogledd Iwerddon yn barod am newid sylweddol o dan **bolisi ffermio'r dyfodol** sydd ar y gweill. O'r herwydd, mae'n hanfodol integreiddio polisi bwyd ac amaeth er mwyn cefnogi'r sector ffermio ar yr un pryd â galluogi deiet iach a chynaliadwy.
- Mae **creu strategaeth defnydd tir gyffredinol yn gam hanfodol sydd ei angen** i gydbwyso pwysau sy'n cystadlu â'i gilydd am dir, bwyd a hinsawdd.

# Cyflwyniad

***Eating Better***

Mae *Eating Better* yn fudiad ar gyfer newid sy'n cynnwys chwe deg o sefydliadau sy'n gweithio i gyflymu'r newid o gynhyrchu a bwyta gormod o gig a chynnyrch llaeth i system fwyd decach, iachach a mwy cynaliadwy sy'n well ar gyfer lles anifeiliaid ac ar gyfer natur.

Amrediad, amrywiaeth ac arbenigedd ein cynghrair sy'n rhoi pŵer iddi. O elusennau amgylcheddol a lles anifeiliaid i iechyd y cyhoedd a chyfiawnder cymdeithasol, rydym yn gweithio gyda'n gilydd i greu amgylchedd bwyd teg a chynaliadwy, lle gall pawb gael gafael ar fwyd iach, fforddiadwy a maethlon.

**Pam y gwledydd?**

I raddau helaeth, mae bwyd a ffermio yn fater datganoledig yn y DU, ond tan yn ddiweddar, ni fu'r pedair gwlad yn hynod o weithgar yn y maes hwn. Ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd (UE), bu gwahaniaethau a pharhad sylweddol ym mholisi bwyd a ffermio ar draws Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru wrth i lywodraethau datganoledig ddatblygu a rhoi polisïau ar waith yn absenoldeb deddfwriaeth yr UE. Mae'r llywodraethu datganoledig hwn yn gyfle i lywodraethau cenedlaethol gyflwyno a rhoi polisïau pellgyrhaeddol ar waith sy'n manteisio ar y cyfleoedd, ac yn mynd i'r afael â'r heriau, ym mhob system fwyd genedlaethol.

Mae gan y pedair gwlad nodweddion diwylliannol, demograffig, naturiol, economaidd-gymdeithasol a gwleidyddol amrywiol. Mae'r nodweddion hyn yn dylanwadu ar y bwyd rydym yn ei dyfu, ei brosesu, ei fasnachu a'i fwyta. Mae deall, dysgu oddi wrth, a datblygu tirwedd polisi bwyd ledled y DU yn gam angenrheidiol a hanfodol tuag at sicrhau mynediad cyfartal a theg at ddeiet iach a chynaliadwy. Drwy edrych ar y polisi bwyd sy'n amlygu ei hun ym mhob un o'r pedair gwlad, gellir cryfhau'r systemau a'r diwylliannau bwyd unigryw ym mhob un ohonynt drwy ddysgu, cydweithio a datblygu ledled y DU.

**Pam canolbwyntio ar weithredoedd y llywodraeth?**

Mae sicrhau bod gan bawb fynediad at ddeiet iach nad yw'n niweidio'r amgylchedd yn flaenoriaeth hollbwysig ledled y DU. Mae angen dull mwy cyfannol o lunio polisïau ar amgylchedd bwyd gwell i bobl, un sy'n dod ag adrannau'r llywodraeth sydd â diddordebau cyffredin at ei gilydd ac sy'n ymgorffori gofyniad i hyrwyddo cynhyrchu a defnydd cynaliadwy ar draws y llywodraeth. Mae gan lywodraethau cenedlaethol hefyd amrywiaeth o fesurau polisi sy'n gallu ehangu a dyblygu camau gweithredu ar lawr gwlad ar fwyd, gan drawsnewid yr amgylchedd bwyd o'r gwaelod i fyny.

# Camau gweithredu'r map Eating Better


Mae'r map *Better by Half* yn amlinellu'r ffordd at fwyta llai o gig a chynnyrch llaeth a chael gwell cig a chynnyrch llaeth, **gan ddarparu 24 cam i'w cymryd ar draws 5 sector** i greu amgylchedd galluogi i sbarduno'r trawsnewid sydd ei angen mewn arferion bwyta. Mae'r map yn ymdrech ar y cyd rhwng pob sefydliad yn y gynghrair, o gyrff iechyd cyhoeddus i ffermwyr, i amlinellu ac argymell mesurau a fydd yn darparu deiet iach a chynaliadwy.

Mae'r adroddiad hwn yn mapio pob un o'r pedair gwlad drwy **chwe maes gweithredu allweddol gan y llywodraeth** yn map *Better by Half*.


Mae'r adroddiad hwn yn ymgorffori camau gweithredu'r llywodraeth o'r map **sy'n seiliedig ar faint o awdurdod datganoledig sy'n rhan o'r gwaith o'u datblygu a'u rhoi ar waith**. Mewn achosion lle mae gan y llywodraeth genedlaethol awdurdod dros bolisïau sy'n effeithio ar newid, mae'r camau gweithredu cyfatebol yn cael eu cynnwys, ond eithriwyd y rhai sy'n cael eu rheoli ar lefel y DU gyfan neu gan awdurdodau lleol.




**Cyflawni strategaeth fwyd a ffermio trawsadrannol**



**Mae canllawiau deietegol cynaliadwy ac iach yn sail i bob datblygiad polisi**




**Normaleiddio deietau cynaliadwy drwy gaffael cyhoeddus**




**Cynnydd prif ffrwd mewn bwyd ysgol**



**Ailgydbwyso polisi amaeth tuag at gynhyrchu planhigion a gwella cig a chynnyrch llaeth**



**Datblygu cynllun defnydd tir integredig**



Yr Alban

Cymru

Gogledd Iwerddon

LLoegr

# Adolygu polisïau


# Yr Alban

**Crynodeb**


Yr Alban sydd â'r strategaeth fwyd a ffermio trawsadrannol fwyaf cynhwysfawr yn unrhyw un o bedair gwlad y DU. Ar ôl cyhoeddi'r Strategaethau Bwyd Lleol sydd ar y gweill a datblygu'r cynllun *Good Food Nation*, dylem weld gwell integreiddio ar fecanweithiau, fel defnyddio caffael cyhoeddus, sy'n prif-ffrydio deiet iach a chynaliadwy. Fodd bynnag, nid oes diffiniad yn dal i fod o ddeietau cynaliadwy ym mholisi'r llywodraeth, sy'n hepgoriad a adlewyrchir yn y diffyg cyngor ynghylch bwyd cynaliadwy mewn canllawiau deietegol. Mae gweledigaeth Llywodraeth yr Alban ar gyfer amaeth yn gosod y cyd-destun ar gyfer y gwaith uchelgeisiol o drosi i ffermio sy'n ystyriol o natur, ond mae targedau penodol ar gyfer lleihau allyriadau amaethyddol ar goll. Er mwyn i amaethyddiaeth sbarduno'r trawsnewid i ddeiet iach a chynaliadwy a gwireddu effaith lawn y Ddeddf *Good Food Nation*, mae angen i'r Alban fynd ati i ddatblygu ac integreiddio polisi cryfach o ran amaeth, hinsawdd a bwyd.



# Y system fwyd yn yr Alban




**Niferoedd da byw**




**11%**

**Canran y rhywogaethau dan fygythiad**

**21%**

**Canran yr oedolion sy'n bwyta neu'n yfed 5 ffrwyth neu lysieuyn y dydd**

**17%**

**Canran yr aelwydydd sy'n profi ansicrwydd bwyd**

**Tir a ddefnyddir ar gyfer amaeth**

**5,329,957 hectar**
**69% o'r arwynebedd tir**

Tir a ddefnyddir ar gyfer glaswelltir a phori garw
**78% o'r tir amaethyddol**

Tir a ddefnyddir fel tir âr gan gynnwys garddwriaeth
**10% o'r tir amaethyddol**

Tir arall gan gynnwys coetiroedd
**12% o'r tir amaethyddol**

**67%**

**Canran y boblogaeth oedolion sydd dros bwysau neu'n ordew**

**Allyriadau nwyon tŷ gwydr o amaeth**
7.8 MtCO2e
19% o gyfanswm nwyon tŷ gwydr yr Alban

Cyfeiriadau ar dudalennau 39 a 40

# Polisi bwyd yn yr Alban





## Cyflawni strategaeth fwyd a ffermio trawsadrannol

*Strategaeth fwyd genedlaethol: Oes*

*Strategaeth fwyd leol: Wrthi'n cael ei ddatblygu*

Mae *Good Food Nation Act (Scotland) 2022*, a ddaeth yn gyfraith yn 2022, yn cyfrannu rhywfaint at weithredu strategaeth fwyd a ffermio trawsadrannol, ond mae bylchau sylweddol ynddi hefyd o ran nodau a diffyg targedau. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i greu cynllun *Good Food Nation* cenedlaethol trawsbynciol, a fydd yn cael ei gynhyrchu bob pum mlynedd. Mae dyletswydd ar gyrff cyhoeddus, er enghraifft byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, i ysgrifennu a gweithredu eu cynlluniau *Good Food Nation* eu hunain. Er mwyn darparu goruchwyliaeth, bydd sefydliad annibynnol Comisiwn Bwyd yr Alban yn cael ei greu, ond nid oes llawer o fanylion hyd yma ynghylch pwy fydd yn rhan ohono na phryd y bydd yn cael ei lansio.



## Mae canllawiau deietegol cynaliadwy ac iach yn sail i bob datblygiad polisi

*Diffiniad o ddeiet cynaliadwy: Dim diffiniad yn strategaeth y llywodraeth*

*Canllawiau ar faint o gig coch a chig wedi'i brosesu i'w fwyta: Y cyngor yw 70g, ni ddylai'r uchafswm fod yn fwy na 90g. Nid oes argymhelliad swyddogol ar faint o gig gwyn i'w fwyta*

Mae *Food Standards Scotland (FSS)* yn un o adrannau anweinidogol Llywodraeth yr Alban. Mae'n gyfrifol am gyflwyno a monitro safonau bwyd a phorthiant ar gyfer yr Alban. O dan strategaeth 2021-2026, nod yr *FSS* yw gweithredu o dan y weledigaeth o gael bwyd diogel, iach a chynaliadwy sy'n dod â budd i iechyd a llesiant pawb yn yr Alban, ac yn ei ddiogelu. Er gwaethaf rhoi'r Ddeddf Good Food Nation ar waith, nid oes diffiniad swyddogol o beth yw deiet cynaliadwy yn y gwaith a gyhoeddwyd gan yr *FSS* nac ym mholisi Llywodraeth yr Alban.

Mae'r cyngor deietegol a ddarperir gan yr *FSS*, gan gynnwys 'tiwtorial bwyta'n iach', yn dibynnu ar yr Canllaw Bwyta'n Dda ac mae'n cyd-fynd â'i negeseuon. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd yn defnyddio'r '*Scottish Dietary Goals*' i arwain polisïau sy'n ceisio gwella deiet y boblogaeth, er enghraifft drwy osod meini prawf maeth ar gyfer bwyd ysgol. Mae nodau a negeseuon yr *FSS* ynghylch deietau a argymhellir yn canolbwyntio'n llwyr ar iechyd, gyda'r unig sôn am gynaliadwyedd yn dod mewn cyfeiriadau amwys yn yr Canllaw Bwyta'n Dda. O ran 'cig coch a chig wedi'i brosesu', y nod yw peidio â bwyta mwy ohono, sy'n cyferbynnu â'r nodau penodol ar gyfer lleihau faint o siwgr, halen a braster rydych yn ei fwyta a'i yfed.

## Normaleiddio deietau cynaliadwy drwy gaffael cyhoeddus

*Strategaeth caffael cyhoeddus ar gyfer cyflenwi domestig: Gweithio i gynyddu gwariant ar gynnyrch lleol, nid oes targed wedi'i osod eto.*

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei Strategaeth Caffael Cyhoeddus gyntaf ar gyfer yr Alban:2023 i 2028, sy'n cynnwys cyfeiriadau at gostau oes gyfan a'r argyfwng hinsawdd. Fodd bynnag, yr unig gyfeiriad penodol at fwyd yw cyfeiriad byr at 'ddiogeledd bwyd' a 'sicrhau safonau uchel o ran lles anifeiliaid a chynhyrchu cynaliadwy a lleihau gwastraff' i 'wella iechyd, llesiant ac addysg gymunedol'. Yn gyffredinol, nid yw'r strategaeth yn cyfleu gweledigaeth gydlynol gydgysylltiedig o gaffael bwyd cyhoeddus mewn ffordd gynaliadwy ac iach.

Mae'r drefn gaffael wedi bod yn canolbwyntio ar gefnogi economïau lleol a chyflenwyr lleol. Mae '*Local Food for everyone: a discussion*' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth yr Alban yn 2021 yn nodi rhaglen gynhwysfawr o gamau gweithredu i gefnogi bwyd lleol. Nod Piler Tri y cynllun yw harneisio gweithgarwch caffael yn y sector cyhoeddus er budd busnesau'r Alban. O fewn hyn mae'r ymrwymiad i ddiweddaru '*Catering for Change: buying food sustainably in the public sector*', a gyhoeddwyd yn 2011, i gynnwys adborth gan awdurdodau lleol a grwpiau caffael y sector cyhoeddus.

Mae Llywodraeth yr Alban yn darparu cyllid ar gyfer yr ymgyrch *Food for Life* sy'n cael ei rhedeg gan y Soil Association, sydd bellach yn gweithredu ar draws 17 awdurdod lleol yn yr Alban, gan gefnogi gweini darpariaeth bwyd mwy lleol ac iachach mewn ysgolion. Ar hyn o bryd mae Food for Life yn cynnal Cynllun Peilot Ehangu i'r Sector Cyhoeddus yn Glasgow, sy'n ceisio ehangu i leoliadau newydd yn y sector cyhoeddus.

Nid oes cysondeb ar draws y wlad o ran cael mwy o fwyd o ffynonellau lleol a chynaliadwy, ac mae angen cymryd camau i fynd i'r afael â rhwystrau ar lefel genedlaethol rhag gweithredu hynny. Fodd bynnag, mae rhai enghreifftiau rhanbarthol gwych o gynnydd ym maes caffael cynaliadwy. Mae Cyngor Dwyrain Swydd Ayr a Chyngor De Swydd Lanark yn aml yn cael eu defnyddio fel enghreifftiau o arfer gorau oherwydd eu llwyddiant yn caffael bwyd lleol, er bod cyllidebau digonol yn rhan allweddol o gyflawni hyn yn llwyddiannus.







## Cynnydd prif ffrwd mewn bwyd ysgol

*Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn: Oes, am y 5 mlynedd gyntaf yn yr ysgol gynradd gydag ymrwymiadau i ymestyn hynny.*
*Gofynion o ran Ffrwythau a Llysiau yn yr ysgol gynradd: O leiaf 2 ddogn (40g yr un) o lysiau ac 1 dogn o ffrwythau gyda phob pryd*
*Gofynion cig yn yr ysgol gynradd: Dim mwy na 175g yr wythnos, ac ni ddylai mwy na 100g o'r cig hwn fod wedi'i brosesu.*
*Gofynion o ran Ffrwythau a Llysiau yn yr ysgol uwchradd: O leiaf 2 ddogn (80g yr un) o lysiau ac 1 dogn o ffrwythau gyda phob pryd*
*Gofynion cig yn yr ysgol uwchradd: Dim mwy na 230g yr wythnos, ac ni ddylai mwy na 130g o'r cig hwn fod wedi'i brosesu.*

Darperir Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn yn ystod y 5 mlynedd gyntaf yn yr ysgol gynradd. Yn Rhaglen Lywodraethu 2023-2024, mae yna ymrwymiadau i baratoi ysgolion a'r seilwaith ar gyfer cyflwyno prydau ysgol am ddim i bob plentyn yn ystod dwy flynedd olaf addysg gynradd erbyn diwedd 2026.

Gosodwyd safonau bwyd ysgolion yn yr Alban i fod yn gyson â Nutritional Requirements for Food and Drink in Schools (Scotland) Regulations 2020, a ddaeth i rym yn 2021. Mae'r rheoliadau'n ganlyniad i ddiweddariad i gysoni safonau'n agosach â Nodau Deiet yr Alban. Roedd y diwygiad i'r safonau yn cynnwys cynnydd mewn dognau ffrwythau a llysiau a chyflwyno cyfyngiadau ar gig.

Mae nodau sy'n ymwneud â gwneud bwyd ysgol yn fwy lleol a chynaliadwy yn cael eu gwireddu drwy gyllido *Food for Life*. Ffurfiwyd Gweithgor, sy'n cynnwys sawl cyngor rhanbarthol, i sicrhau bod yr holl gyfleoedd a ddaw yn sgil cyflwyno prydau ysgol am ddim, gan gynnwys caffael lleol a chynaliadwy, yn cael eu gwireddu.





## Ailgydbwyso polisi amaeth tuag at gynhyrchu planhigion a gwella cig a chynnyrch llaeth

*Deddf Amaeth: Wrthi'n cael ei datblygu*

Cyflwynodd Llywodraeth yr Alban Fil Amaeth ym mis Medi 2023. Mae'r Bil yn cyflwyno fframwaith newydd o gefnogaeth i amaeth wrth ddisodli Polisi Amaeth Cyffredin (CAP) yr UE. Cynlluniwyd y mesurau arfaethedig i gyflawni *Vision for Agriculture* yr Alban, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022. Cynlluniwyd y weledigaeth i alluogi'r Alban i fynd ati i fod yn 'arweinydd byd-eang ym maes amaeth cynaliadwy ac adfywiol'. Mae'r weledigaeth yn datgan mai'r flaenoriaeth gyntaf yw canolbwyntio ar y sectorau sy'n allyrru'r lefelau uchaf o nwyon tŷ gwydr, ac mae'n enwi cynhyrchu da byw fel enghraifft allweddol.

Mae Cynllun ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd presennol yr Alban yn targedu gostyngiad o 24% mewn allyriadau'r sector amaeth erbyn 2032 ar sail lefelau 1990. Bydd diweddariad hwyr i'r Cynllun yn mynd gerbron Senedd yr Alban ddechrau 2024, gan ddiffinio unrhyw ddiwygiadau, boed y rheiny'n fwy uchelgeisiol ai peidio, i'r ffigur targed hwn. Fel mae pethau ar hyn o bryd, nid oes targedau penodol yn y Bil Amaeth a Chymunedau Gwledig o ran sut y mae'r llywodraeth yn bwriadu cyflawni'r gostyngiadau hyn.

Mae'r dull arfaethedig yn ceisio alinio â Pholisi Amaeth Cyffredin newydd yr UE fel rhan o strategaeth wleidyddol ehangach i barhau i gyd-fynd yn fras â deddfwriaeth yr UE. Mae'r Bil yn cynnig cyflwyno taliadau ar draws pedair haen, gan gofnodi amcanion taliadau uniongyrchol, hinsawdd ac ecolegol. Mae haen gyntaf y cyllid wedi'i strwythuro o amgylch system daliadau ar sail ardal, sy'n debyg i'r hyn a gynigir dan y Polisi Amaeth Cyffredin. Yn ystod y cyfnod ymgynghori parhaus, mae'r Bil wedi cael ei feirniadu am hyn, ochr yn ochr â'i ddiffyg eglurder ynghylch y gefnogaeth a gynigir i gynhyrchwyr ar raddfa fach, ffermwyr newydd, a'r rheini sy'n gweithio yn y sector garddwriaeth.



## Datblygu cynllun defnydd tir integredig

*Targedau coedwigo: 18,000 ha y flwyddyn erbyn 2024-2025*

*Strategaeth defnydd tir: Oes*

Mae mwy a mwy o alw am dir gan amrywiaeth eang o amcanion, gan gynnwys cynhyrchu bwyd, amddiffyn rhag llifogydd a datgarboneiddio. Mae dyletswydd statudol ar Lywodraeth yr Alban i greu a diweddaru strategaeth Defnydd Tir ar gyfer yr Alban o dan Adran 57 y *Climate Change (Scotland) Act 2009*. Y fersiwn diweddaraf yw'r drydedd Strategaeth Defnydd Tir (2021-2026), sy'n nodi gweledigaeth, amcanion a pholisïau'r llywodraeth i sicrhau defnydd cynaliadwy o dir. Y bwriad yw ategu strategaethau allweddol eraill y llywodraeth i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a dirywiad byd natur, gan gynnwys y Cynllun Newid yn yr Hinsawdd, *Scottish Climate Change Adaptation Programme (SCCAP) 2019-2024* a Strategaeth yr Amgylchedd.

Mae'r strategaeth bresennol yn cynnwys targedau ar gyfer coedwigo (18,000 hectar y flwyddyn erbyn 2024-25) ac adfer mawn (i gyflawni 250,000 hectar erbyn 2030). Y cyfraddau plannu coed ar hyn o bryd yw oddeutu 10,000 ha y flwyddyn, ac er bod perfformiad yr Alban yn well na gweddill y DU, mae wedi methu targedau ar gyfer y ddwy flynedd diwethaf ac nid oes fawr newid wedi bod i'r cyfraddau plannu cyffredinol ers 2019.

Mewn egwyddor, bwriad y Strategaeth Defnydd Tir yw dilyn dull gweithredu cydgysylltiedig ar draws gwahanol anghenion defnydd tir, a blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Yn wir, cyfeirir yn aml yn y ddogfen at 'systemau integredig' a 'chyfannol' o ran sut mae'n llunio'r strategaeth. Fodd bynnag, mae pryder ymysg rhai grwpiau y gallai fod yn achos o fethu cyfle i gael cynllun defnydd tir strategol gwirioneddol uchelgeisiol a chydlynol.


# Cymru

**Crynodeb**


Ar ôl i'r Bil Bwyd (Cymru) gael ei drechu, mae Cymru'n parhau i weithredu heb strategaeth fwyd genedlaethol na diffiniad o beth yw deiet iach a chynaliadwy. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pŵer diwylliannau bwyd lleol drwy gyflwyno darn nodedig o gyllid ar gyfer partneriaethau bwyd traws-sector, a thrwy ddatblygu'r strategaeth bwyd cymunedol (er nad yw wedi cael ei chyhoeddi ac mae pryderon gan randdeiliaid ynghylch yr oedi). Mae ymdrech yn cael ei wneud i gaffael bwyd yn fwy lleol, ond mae diffyg eglurder ac uchelgais ynghylch y safonau amgylcheddol sy'n ofynnol mewn contractau sector cyhoeddus. Yn yr un modd, mae angen integreiddio iechyd a chynaliadwyedd yn well yn y sector cyhoeddus; mae prydau ysgol am ddim i bawb yn gyfle cyffrous i Lywodraeth Cymru weithredu ar hyn. Bydd datblygu a rhoi Deddf Amaeth (Cymru) 2023 ar waith yn hanfodol ar gyfer trawsnewid y system fwyd, gan gynnwys cynnydd o ran caffael yn lleol. Mae angen cydbwyso'r pwysau sy'n cystadlu â'i gilydd ar dir Cymru â strategaeth defnydd tir gyffredinol, yn enwedig os am wireddu'r manteision a ddaw yn sgil rheoli tir yn amgylcheddol o dan y Ddeddf Amaeth yn y dyfodol.



# Y system fwyd yng Nghymru




**Niferoedd da byw**








**Canran y rhywogaethau dan fygythiad**




**Canran yr oedolion sy'n bwyta neu'n yfed 5 ffrwyth neu lysieuyn y dydd**




**Canran yr aelwydydd sy'n profi ansicrwydd bwyd**

**Tir a ddefnyddir ar gyfer amaeth**




**1,767,700 hectar**
**90% o'r arwynebedd tir**

Tir a ddefnyddir ar gyfer glaswelltir a phori garw
**85% o'r tir amaethyddol**

Tir a ddefnyddir fel tir âr gan gynnwys garddwriaeth
**6% o'r tir amaethyddol**

Tir arall gan gynnwys coetiroedd
**9% o'r tir amaethyddol**




**Canran y boblogaeth oedolion sydd dros bwysau neu'n ordew**

**Allyriadau nwyon tŷ gwydr o amaeth**
5.5 MtCO2e
16% o gyfanswm nwyon tŷ gwydr Lloegr

Cyfeiriadau ar dudalennau 39 a 40

# Polisi bwyd yng Nghymru




## Cyflawni strategaeth fwyd a ffermio trawsadrannol

*Strategaeth Fwyd Genedlaethol: Nac oes*

*Strategaeth Fwyd Leol: Wrthi'n cael ei datblygu*


Mae Cymru ar hyn o bryd yn gweithredu heb strategaeth gyffredinol ar fwyd, gyda'r fersiwn diwethaf, Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru, yn dod i ben yn 2020. Cafodd Bil Bwyd (Cymru) ei gyflwyno fel Bil Aelodau Preifat yn 2021. Nod y Bil oedd darparu fframwaith cyfannol a chydlynol ar gyfer datblygu polisi bwyd yn y dyfodol. Byddai'r Bil a fodelwyd ar agweddau o'r Ddeddf Good Food Nation yr Alban, wedi ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus hyrwyddo nodau bwyd, sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru, ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth fwyd genedlaethol, a'i gwneud yn ofynnol i gyrff lleol lunio a chyhoeddi cynlluniau bwyd lleol. Cynhaliwyd pleidlais i fwrw ymlaen â'r Bil ym mis Mai 2023 ac fe'i trechwyd o drwch blewyn.

Yn ei adroddiad Cyfnod 1 ar y Bil, cynigiodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd 17 o argymhellion i'w gweithredu gan Lywodraeth Cymru sy'n ymdrin â dwy senario sef bod y Bil yn methu neu'n llwyddo. Nid ydym yn gwybod eto i ba raddau y bydd yr argymhellion hyn yn cael eu rhoi ar waith.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu 2021-26 yn cynnwys yr ymrwymiad i ddatblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol i Gymru i annog cyflenwi bwyd o ffynonellau lleol yng Nghymru ac i ddatblygu model rheoleiddio cenedlaethol ar gyfer lles anifeiliaid. Cynhaliwyd sawl cam o ymgynghori ac ymchwil, er nad yw wedi cael ei gyhoeddi ac mae pryderon ymysg rhanddeiliaid ynghylch yr oedi. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi mynegi ei chefnogaeth i weithredu ar fwyd ar lefel gymunedol drwy ddyrannu £2.5 miliwn o gyllid ar gyfer datblygu a chefnogi partneriaethau bwyd traws-sector ym mhob ardal awdurdod lleol.








## Mae canllawiau deietegol cynaliadwy ac iach yn sail i bob datblygiad polisi

*Diffiniad o ddeiet cynaliadwy: Dim diffiniad yn strategaeth y llywodraeth*

*Canllawiau ar faint o gig coch a chig wedi'i brosesu i'w fwyta: Y cyngor yw 70g, ni ddylai'r uchafswm fod yn fwy na 90g. Nid oes argymhelliad swyddogol ar faint o gig gwyn i'w fwyta*

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r canllaw Bwyta'n dda fel sail ar gyfer cyngor 'deiet iach'. Pwysau Iach: Cymru Iach yw'r strategaeth hirdymor a weithredir gan Lywodraeth Cymru i atal a lleihau gordewdra. Mae'n cynnwys pedair thema genedlaethol: amgylcheddau iach, lleoliadau iach, pobl iach, arweinyddiaeth a galluogi newid. Bwriad y cynllun yw helpu i gefnogi adferiad gwyrdd a chreu newidiadau i'r ffordd mae pobl yn symud ac yn bwyta. Y tu hwnt i hyn, mae Sgiliau Maeth am Oes yn rhaglen ledled Cymru sy'n cael ei harwain gan weithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol a dietegwyr gyda'r nod o feithrin gallu, hyfforddi a datblygu sgiliau i gefnogi mynediad at fwyd iach, fforddiadwy a chynaliadwy i bobl Cymru. Y tu hwnt i'r sôn am gynaliadwyedd yn y Canllaw Bwyta'n dda, nid yw'r llywodraeth yn rhoi cyngor na pholisi deietegol ar ddeiet cynaliadwy.diets.




## Normaleiddio deietau cynaliadwy drwy gaffael cyhoeddus

*Strategaeth caffael cyhoeddus ar gyfer cyflenwi domestig: Gweithio i gynyddu gwariant ar gynnyrch lleol, nid oes targed wedi'i osod eto.*

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn darparu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru sy'n gadarn yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn amgylcheddol. Mae'r Ddeddf Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (2023) ddiweddar yn adeiladu ar hyn, gan ddarparu ffordd o wella llesiant pobl Cymru drwy bartneriaethau cymdeithasol, gwaith teg a chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol. Mae'r Ddeddf yn annog awdurdodau lleol i newid o ddull 'cost isel sy'n rhoi'r gwerth gorau', i un sy'n caniatáu cynnwys pob agwedd ar gynaliadwyedd yn y canlyniad gwerth gorau ac sy'n annog buddsoddiad yn yr Economi Sylfaenol drwy gwtogi cadwyni cyflenwi a phrynu cynnyrch o Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil ar wariant sector cyhoeddus Cymru ar fwyd a diod a chyfran y gwariant hwn a ddyrennir i gefnogi busnesau Cymru. Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhyddhau "Prynu Bwyd Addas at y Dyfodol", adnodd caffael ar-lein ar gyfer pob contract bwyd a chytundebau fframwaith, sydd wedi'i gynllunio i wella hygyrchedd i fusnesau bach a chanolig.

Fodd bynnag, nid oes digon o bolisi ar hyn o bryd sy'n gwneud Deddf Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (2023) yn berthnasol i gaffael bwyd. Cynghorir cyrff cyhoeddus i roi mwy a mwy o bwysau ar 'ansawdd' dros 'bris' wrth gynllunio a dyfarnu contractau caffael; fodd bynnag, ychydig iawn o ganllawiau sydd ar gael ynghylch y diffiniad o 'ansawdd' o safbwynt dulliau cynhyrchu a bwyd.




## Cynnydd prif ffrwd mewn bwyd ysgol

*Prydau Ysgol am Ddim i Bawb: Oes - yn cael eu cyflwyno i bob plentyn ysgol gynradd*
*Gofynion o ran Ffrwythau a Llysiau yn yr ysgol gynradd: O leiaf 1 dogn (40g yr un) o lysiau ac 1 dogn o ffrwythau gyda phob pryd*
*Gofynion cig yn yr ysgol gynradd: Rhaid gweini cig ar o leiaf 2 ddiwrnod yr wythnos*
*Gofynion o ran Ffrwythau a Llysiau yn yr ysgol uwchradd: O leiaf 2 ddogn (60g yr un) o lysiau ac 1 dogn o ffrwythau gyda phob pryd*
*Gofynion cig yn yr ysgol uwchradd: Rhaid gweini cig ar o leiaf 3 ddiwrnod yr wythnos*

Ar hyn o bryd, mae Cymru'n cyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn Ysgol Gynradd ar gyfer plant cynradd yn nhair blynedd gyntaf yr ysgol gynradd, gan ehangu i bob disgybl ysgol gynradd erbyn 2024.
Nodir Safonau Bwyd Ysgolion yng Nghymru yn Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013. O fewn Pwysau Iach Cymru Iach, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu a diweddaru'r safonau hyn yn unol â'r safonau a'r canllawiau maeth diweddaraf.

Rhaid gweini cig o leiaf ddwywaith yr wythnos mewn ysgolion cynradd, ac o leiaf 3 gwaith yr wythnos mewn ysgolion uwchradd. Ni ddylid gweini 'cynnyrch cig' mwy na dwywaith yr wythnos.

Mae'r rhaglen gwella gwyliau'r haf 'Bwyd a Hwyl' yn gynllun i gefnogi addysg bwyd a maeth, lles corfforol a meddyliol plant yn ystod gwyliau'r haf. Fe'i gweinyddir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac yn 2023 roedd ganddi oddeutu £5m o gyllid i gyflwyno'r rhaglen i ysgolion ledled Cymru.



# Ailgydbwyso polisi amaeth tuag at gynhyrchu planhigion a gwella cig a chynnyrch llaeth

*Deddf Amaeth: Oes*

Bwriad Deddf Amaeth (Cymru) 2023, sydd newydd gael ei rhoi ar waith, yw cefnogi ffermwyr a chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy. Bydd y Ddeddf yn sail i gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'r cynllun newydd, a fydd yn cael ei gyflwyno yn 2025, yn amlinellu'r strategaeth amaethyddol ar ôl Brexit i drawsnewid sector ffermio a thirwedd Cymru. Mae'n cynnwys amcanion allweddol i gynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy, lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd, a chynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau Cymru. Bydd y cynllun yn cyflwyno dull tair haen o ymdrin â chymorthdaliadau ffermio drwy Gamau Gweithredu Cyffredinol, Dewisol a Chydweithredol ar gyfer ffermwyr. Cynigiwyd Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer amaeth yn y Papur Gwyn ar Amaeth (2020), ond nid yw'r ffocws ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi arwain at unrhyw gyhoeddiadau pellach ar safonau gofynnol.

Yn 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru'r Cynllun Troi'n Organig i gefnogi cynhyrchwyr ledled Cymru i drosi i gynhyrchu organig. O fis Ionawr 2024 ymlaen, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu Taliadau Cymorth Organig i ffermwyr organig sydd wedi'u hardystio'n llawn yn ystod y cyfnod pontio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae hyn yn dilyn misoedd o ansicrwydd ynghylch y cymorth a gaiff ei gynnig i gynhyrchwyr organig ochr yn ochr â gostyngiadau yn y gyllideb gyffredinol ar gyfer Materion Gwledig (2024-2025).

O ystyried cyfyngiadau topograffig a hinsawdd, mae sector amaeth Cymru'n ddibynnol iawn ar ffermio da byw. Nodwyd fod diffyg garddwriaeth ddomestig yn rhwystr allweddol ar draws y system fwyd, yn enwedig o ran caffael cyhoeddus yn fwy lleol. Yn 2022, agorodd Llywodraeth Cymru y Cynllun Datblygu Garddwriaeth i gynhyrchwyr garddwriaethol masnachol presennol ledled Cymru. Mae busnesau garddwriaethol newydd hefyd wedi cael cymorth drwy'r cynllun Grantiau Bach - Dechrau Busnes Garddwriaeth.



## Datblygu cynllun defnydd tir integredig

*Targed coedwigo: Plannu 180,000 ha o goed erbyn 2050*

*Strategaeth defnydd tir: Nac oes*

Mae Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040 yn fframwaith cenedlaethol sydd wedi'i gynllunio i gyfeirio datblygu a defnydd tir yng Nghymru tan 2040. Nid yw hon yn fframwaith statudol, ond mae'n rhaid i bob cynllun strategol a lleol a ddaw yn ei sgil gydymffurfio â'i bolisïau. Mae'n mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol o ran defnydd tir a'r system gynllunio, gan gynnwys sicrhau niwtraliaeth carbon a chydnerthedd yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a hyrwyddo seilwaith gwyrdd. Er bod y ddogfen yn gosod sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau datblygu lefel uchel, nid yw'n cynnwys digon o fanylion a dull gweithredu wedi'i dargedu ar gyfer strategaeth defnydd tir sydd wedi'i datblygu'n llawn. Er mwyn hwyluso'r gwaith o droi at ddefnydd tir agroecolegol, mae angen gweithredu offerynnau cynllunio eraill, fel Datganiadau Ardal a Chynlluniau Datblygu Strategol a Lleol. Nid yw'n glir ar hyn o bryd sut mae'r fframwaith yn llunio cymorth amaethyddol i helpu i gyflawni nodweddion ar raddfa tirwedd a nodir mewn Datganiadau Ardal a Chynlluniau Datblygu Strategol a Lleol.

Nodir gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio tir amaethyddol yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sy'n seiliedig ar Ddeddf Amaeth (Cymru) 2023. Lluniwyd y Cynllun i fynd i'r afael â phedwar amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy: cynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy, lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd, cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu, a gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, gan hyrwyddo mynediad i'r cyhoedd ac ymgysylltu â nhw. O fewn yr amcanion hyn, mae'r Cynllun yn rhoi blaenoriaeth i ganiatáu ffermwyr a thirfeddianwyr i greu cynefinoedd a rheoli tir yn agroecolegol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gael gorchudd coed ar 10% (a reolir yn unol â Safon Coedwigaeth y DU) a chael cynefinoedd bioamrywiaeth a reolir ar 10% o'r tir (sy'n cael eu cynnal neu eu creu).




# Gogledd Iwerddon

**Crynodeb**


Er mwyn normaleiddio deiet iach a chynaliadwy yng Ngogledd Iwerddon, mae angen gwneud cynnydd ar y Fframwaith Strategaeth Bwyd sy'n aros yn ei unfan ar hyn o bryd. Er bod cynnig i gynyddu caffael cynaliadwy, unwaith eto mae'n dibynnu ar ddatblygu'r strategaeth fwyd gyffredinol. Mae lle i wneud gwelliannau mawr ar fwyd ysgol, drwy gyflwyno canllawiau iach a chynaliadwy a chynyddu mynediad at brydau ysgol am ddim. Mae'r sector Amaeth yng Ngogledd Iwerddon yn barod am newid sylweddol o dan bolisi ffermio'r dyfodol sydd ar y gweill. O'r herwydd, mae'n hanfodol integreiddio polisi bwyd ac amaeth er mwyn cefnogi'r sector ffermio ar yr un pryd â galluogi deiet iach a chynaliadwy. O ystyried pa mor gyffredin yw amaethu da byw yng Ngogledd Iwerddon, ynghyd â maint y gostyngiad sydd ei angen mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, bydd creu strategaeth defnydd tir gyffredinol yn hanfodol i gydbwyso pwysau cystadleuol y system tir a bwyd.



# Y system fwyd yng Ngogledd Iwerddon





## Niferoedd da byw








**Canran y rhywogaethau dan fygythiad**





**Canran yr oedolion sy'n bwyta neu'n yfed 5 ffrwyth neu lysieuyn y dydd**




**Canran yr aelwydydd sy'n profi ansicrwydd bwyd**

## Tir a ddefnyddir ar gyfer amaeth




**1,042,318 hectar**
**75% o'r arwynebedd tir**

Tir a ddefnyddir ar gyfer glaswelltir a phori garw
**92% o'r tir amaethyddol**

Tir a ddefnyddir fel tir âr gan gynnwys garddwriaeth
**5% o'r tir amaethyddol**

Tir arall gan gynnwys coetiroedd
**3% o'r tir amaethyddol**




**Canran y boblogaeth oedolion sydd dros bwysau neu'n ordew**

**Allyriadau nwyon tŷ gwydr o amaeth**
6.2 $MtCO_2e$
28% o gyfanswm nwyon tŷ gwydr Gogledd Iwerddon

Cyfeiriadau ar dudalennau 39 a 40

# Polisi bwyd yng Ngogledd Iwerddon




## Cyflawni strategaeth fwyd a ffermio trawsadrannol

*Strategaeth Fwyd Genedlaethol: Wrthi'n cael ei datblygu*

*Strategaeth Fwyd Leol: Nac oes*


Mae Fframwaith Strategaeth Bwyd Gogledd Iwerddon yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, ac mae DAERA wedi nodi ei fwriad i fynd i'r afael â pholisi bwyd cenedlaethol drwy ddull llywodraeth gyfan. Mae'r Fframwaith yn rhan o'r *Green Growth Strategy and Delivery Framework* (drafft), strategaeth a fydd yn para sawl degawd, sydd wedi'i chynllunio i sicrhau cydbwysedd yr hinsawdd, yr amgylchedd a'r economi yng Ngogledd Iwerddon.

Mae'r ddogfen fframwaith yn nodi newid mewn ieithwedd ac agwedd yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon, o strategaeth 'sicrhau twf', sy'n canolbwyntio ar allforio i sicrhau cynaliadwyedd drwy arloesi. Ar hyn o bryd, allforir 77% o'r holl fwyd a diod sy'n cael eu cynhyrchu yng Ngogledd Iwerddon. O'r herwydd, bydd angen agwedd wahanol iawn at fwyd a ffermio er mwyn ail-alinio'r system fwyd ag anghenion y boblogaeth. Mae'r Fframwaith yn canolbwyntio ar chwe blaenoriaeth strategol: gwella'r cysylltiad rhwng llesiant a bwyd, creu ffyniant economaidd cynaliadwy, hyrwyddo diwylliant bwyd, diogelu a gwella adnoddau naturiol, annog addysg bwyd ac meithrin cydnerthedd yn y gadwyn gyflenwi.

Roedd y rhan fwyaf o'r rheiny a adolygodd y fframwaith yn ystod y cyfnod ymgynghori o blaid ei brif themâu a'i flaenoriaethau. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at y ffaith y dylid ehangu graddfa a chwmpas y fframwaith i gwmpasu newidiadau mwy uchelgeisiol i'r sector fel safonau iechyd ac amgylcheddol bwyd wedi'i fewnforio. O ystyried graddfa gymharol sector da byw Gogledd Iwerddon a'r allyriadau'n gysylltiedig â hi, mae'r diffyg cyfeiriad at dargedau allyriadau nwyon tŷ gwydr penodol, yn arbennig methan ac ocsid nitraidd, hefyd yn hepgoriad sy'n destun pryder.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ddiwedd 2021, ond ychydig neu ddim cynnydd sydd wedi bod o ran datblygu'r Fframwaith Strategaeth Bwyd gyda'r anghytundeb llwyr yn Stormont ers mis Mai 2022.





## Mae canllawiau deietegol cynaliadwy ac iach yn sail i bob datblygiad polisi

*Diffiniad o ddeiet cynaliadwy: "Yn amddiffynnol ac yn parchu bioamrywiaeth ac ecosystemau, yn ddiwylliannol dderbyniol, yn hygyrch, yn economaidd deg ac yn fforddiadwy; yn ddigonol o ran maeth, yn ddiogel ac yn iach, ac yn gwneud y gorau o adnoddau naturiol a dynol" Fframwaith Strategaeth Bwyd Gogledd Iwerddon*


*Canllawiau ar faint o gig coch a chig wedi'i brosesu i'w fwyta: Y cyngor yw 70g, ni ddylai'r uchafswm fod yn fwy na 90g. Nid oes argymhelliad swyddogol ar faint o gig gwyn i'w fwyta*

Mae Gogledd Iwerddon yn defnyddio'r Canllaw Bwyta'n Dda i gael canllawiau ar ddeiet iach a chynaliadwy. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n gyfrifol am roi cyngor i weinidogion ar faeth.

Yn unol â'r Rhaglen Lleihau ac Ailfformiwleiddio Siwgr ledled y DU, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi rhoi'r rhaglen *Making Food Better* ar waith, sydd wedi'i chynllunio i gefnogi busnesau bwyd i leihau cynnwys calorïau, siwgr, braster dirlawn a halen y bwyd maen nhw'n ei gynhyrchu, ei werthu neu ei weini, yn ogystal â lleihau maint dognau i helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau iachach.

Yn 2022, aeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, y *Public Health Agency* a *Safefood* ati i gydgynhyrchu diweddariad o'r Safonau Maeth ar gyfer Arlwyo mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Roedd y diweddariadau'n cynnwys cynyddu faint o ffrwythau, llysiau a grawn cyflawn sy'n cael eu hargymell, a lleihau faint o fraster dirlawn, halen a chig wedi'i brosesu sy'n cael ei argymell.

Y tu hwnt i'r diffiniad a ddarperir yn y Fframwaith Strategaeth Bwyd, nid yw'r llywodraeth wedi cyhoeddi polisi na chyngor ar ddeiet cynaliadwy.




## Normaleiddio deietau cynaliadwy drwy gaffael cyhoeddus

*Strategaeth caffael cyhoeddus ar gyfer cyflenwi domestig: Cesio cynyddu gwariant ar gynnyrch lleol, nid oes targed wedi'i osod eto.*

Mae bwlch sylweddol yn y polisi caffael bwyd. Cymeradwywyd y safbwynt polisi cyffredinol – Polisi Caffael Cyhoeddus Gogledd Iwerddon – gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon dros 20 mlynedd yn ôl. O fis Mehefin 2022 ymlaen, mae Nodyn Polisi Caffael Cyhoeddus 01/21 yn ei gwneud yn ofynnol i dendrau gynnwys o leiaf 10% o gyfanswm y meini prawf dyfarnu er mwyn cael sgôr gwerth cymdeithasol. Fodd bynnag, dim ond i gontractau gwasanaeth ac adeiladu y mae hyn yn berthnasol.

Mae Strategaeth Fwyd Genedlaethol Gogledd Iwerddon yn awgrymu y dylid rhoi Prosiectau Sylfaenol ar waith er mwyn meithrin cydweithio ar unwaith ar ôl mabwysiadu'r ffRamwaith. Cyfeirir at integreiddio polisi caffael cyhoeddus presennol i'r fframwaith o dan bump o'r 6 blaenoriaeth strategaeth allweddol. Fodd bynnag, datgelodd ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth uchelgeisiau ar gyfer targedau mwy penodol ar gaffael lleol. Nid yw'r Strategaeth ychwaith yn cynnwys unrhyw arwydd o'r safonau amgylcheddol na maeth y byddai'n rhaid i fwyd o ffynonellau lleol eu bodloni.






## Cynnydd prif ffrwd mewn bwyd ysgol

*Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn: Nac oes*

*Gofynion o ran Ffrwythau a Llysiau yn yr ysgol gynradd: O leiaf 1 dogn o lysiau ac 1 dogn o ffrwythau gyda phob pryd*

*Gofynion cig yn yr ysgol gynradd: Rhaid gweini cig coch ar o leiaf 2 ddiwrnod yr wythnos a dim mwy na 3 diwrnod yr wythnos. Ni cheir gweini cynhyrchion cig fwy nag unwaith yr wythnos*

*Gofynion o ran Ffrwythau a Llysiau yn yr ysgol uwchradd: O leiaf 1 dogn o lysiau ac 1 dogn o ffrwythau gyda phob pryd*

*Gofynion cig yn yr ysgol uwchradd: Rhaid gweini cig coch ar o leiaf 3 ddiwrnod yr wythnos a dim mwy na 4 diwrnod yr wythnos. Ni cheir gweini cynhyrchion cig fwy na dwywaith yr wythnos.*

Nid oes darpariaeth prydau ysgol am ddim i bawb yng Ngogledd Iwerddon, a phenderfynir ar brydau am ddim ar sail prawf modd.

Mae'r polisi cyffredinol ar fwyd ysgol yn cael ei bennu gan y Polisi Bwyd mewn Ysgolion '*Healthy Food for Healthy Outcomes'* a lansiwyd yn 2013, ond nid yw'r Safonau Maeth ar gyfer bwyd ysgol wedi cael eu diweddaru ers 2008. Adolygwyd y safonau hyn, gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus yn 2020, a chyhoeddwyd diwygiad drafft. Byddai'r diweddariad yn golygu cynnydd yn faint o ffrwythau a llysiau sydd eu hangen. Nid yw'r safonau diweddaraf wedi dod i rym eto oherwydd diffyg cyllid a'r anghytundeb llwyr yn Stormont.



## Ailgydbwyso polisi amaeth tuag at gynhyrchu planhigion a gwella cig a chynnyrch llaeth

*Deddf Amaeth: Nac oes*

Mewn ymateb i Fil Amaeth y DU a chyfrifoldeb datganoledig, nododd DAERA fod “diwydiant amaethyddol sy’n gynaliadwy yn amgylcheddol” yn un o bedwar canlyniad allweddol a’i nodau hirdymor. Mae Portffolio Fframwaith Polisi Amaeth y Dyfodol 2022 yn nodi’r ffordd ymlaen ar gyfer polisi amaeth Gogledd Iwerddon ar ôl i’r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Datblygwyd y fframwaith fel Rhaglen Sylfaenol o dan ymbarél y Strategaeth Twf Gwyrdd ar gyfer Gogledd Iwerddon y maent wrthi’n ei datblygu. Ar sail yr ymgynghoriad, mae DAERA wedi strwythuro’r fframwaith ar sail pedwar prif ganlyniad: mwy o gynhyrchiant, cynaliadwyedd amgylcheddol, gwell cadernid, a chadwyni cyflenwi ymatebol.

Arweiniodd ymgynghoriad pellach ar gynigion polisi a ddatblygwyd o’r Fframwaith at gyhoeddi 54 o benderfyniadau polisi ar Ddyfodol Polisi Amaethyddol ar gyfer Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn cynnwys darparu Taliad Cynaliadwyedd Ffermydd, a gynlluniwyd i gymryd drosodd o Gynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaeth Cyffredin fel taliad sy’n cynnig rhwyd ddiogelwch fesul ardal i bob fferm sydd wedi cofrestru ar gyfer y cynllun. Mae hefyd yn cynnwys ‘pecyn cynaliadwyedd Cig eidion’ sy’n ceisio cynyddu cynhyrchiant a lleihau allyriadau drwy gynyddu effeithlonrwydd; ‘Pecyn Ffermio gyda Natur’ sy’n ceisio gwrthdroi colli bioamrywiaeth drwy greu ac adfer cynefinoedd; a llu o ‘fesurau Ffermio ar gyfer mesurau Carbon’ i annog arferion ffermio carbon is.

Ym mis Mehefin 2022, pasiodd Cynulliad Gogledd Iwerddon y *Climate Change Act (Northern Ireland)*, y wlad olaf yn y DU i wneud hynny. Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygu Cyllidebau Carbon 5 mlynedd a Chynlluniau Gweithredu Hinsawdd cyfatebol i gwrdd â’r targed allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050. Mae’r Ymgynghoriad, a gyhoeddwyd ganol 2023, yn gwneud cynigion i leihau allyriadau o 48% erbyn 2030, a gosodwyd Cyllideb Garbon 1 2023-2027 ar lefel sy’n golygu gostyngiad blynyddol o 33%. Ymysg llawer o gamau gweithredu a argymhellwyd gan y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd, byddai angen gostyngiad o bron i draean yn nifer y da byw er mwyn cyrraedd y targed hwn, mabwysiadu arferion ffermio carbon isel ar raddfa eang a chynyddu cynhyrchiant ffermydd. Yn yr Ymgynghoriad, mae DAERA yn datgan y gall Rhaglen Polisi Amaeth y Dyfodol gyflawni gostyngiadau mewn allyriadau sy’n cyd-fynd â llwybr cyngor y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer y sector amaeth, dros y cyfnod 2023-2027. Mae hyn yn golygu y caiff y gostyngiadau mewn allyriadau amaeth yng Nghyllideb Garbon 1 eu cyflawni heb leihau nifer yr anifeiliaid bridio ond gan ganolbwyntio ar leihau nifer yr anifeiliaid hŷn nad ydynt yn bridio ar y fferm drwy welliannau mewn cynhyrchiant anifeiliaid. Cynigir y bydd y Pecyn Cynaliadwyedd Cig Eidion a’r Rhaglen Geneteg Anifeiliaid sy’n Cnoi Cil yn chwarae rhan fawr yn y cynnydd hwn mewn effeithlonrwydd.





## Datblygu cynllun defnydd tir integredig

*Strategaeth defnydd tir: Nac oes*

*Targed coedwigo: 18 miliwn o goed erbyn 2030 yn creu 9000 ha o goetir*

Er gwaethaf cyhoeddi'r *Climate Change Act (NI)* a'r Strategaeth Twf Gwyrdd ar gyfer Gogledd Iwerddon, nid oes strategaeth defnydd tir integredig ar gyfer Gogledd Iwerddon ar hyn o bryd, ac nid oes un ar y gweill. Mae *Future Agricultural Policy Decisions for NI* yn datgan y bydd DAERA yn datblygu polisi defnydd tir yn ystod y mandad nesaf, ond nid yw'n darparu unrhyw fanylion pellach.

Er mwyn cyrraedd sero net drwy Lwybr Cydbwysedd y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd, mae angen Newid Defnydd Tir a Defnydd Tir a Choedwigaeth yng Ngogledd Iwerddon er mwyn lleihau allyriadau net o 97% erbyn 2050 o'i gymharu â lefelau gwaelodlin 1990. Mae'r llwybr yn rhagweld cynnydd sylweddol yn y gwrychoedd a gaiff eu creu a choedwigo, ac mae DAERA yn bwriadu ei ddefnyddio fel canllaw ar gyfer datblygu pecyn 'Ffermio gyda Natur' Polisi Amaethyddol y Dyfodol. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r camau sylweddol a argymhellwyd gan y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd, mae adolygiad Kendal o sector bwyd amaeth Gogledd Iwerddon yn tynnu sylw at ddiffyg strategaeth defnydd tir gyffredinol fel rhwystr difrifol rhag trawsnewid y system fwyd a nodau hinsawdd ehangach.

Gosodwyd nodau coedwigo yn rhaglen Coedwigoedd ar gyfer ein Dyfodol DEARA a'u targed yw creu 9000 ha o goetir newydd drwy blannu 18 miliwn o goed erbyn 2023. Hyd yma, mae DEARA wedi dyrannu £6.4 miliwn o gymorth grant i gefnogi dros 100 o dirfeddianwyr i blannu pob math o goetiroedd, gan greu dros 850 ha o goetiroedd newydd.


# Lloegr


**Crynodeb**


Nid yw Papur Gwyn y Strategaeth Fwyd wedi gwneud fawr ddim i wella iechyd a chynaliadwyedd deietau yn Lloegr. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud i ddiweddaru safonau prynu bwyd ar gyfer caffael cyhoeddus, ychydig iawn o sylw, os o gwbl, a roddir yn safonau bwyd ysgolion neu ganllawiau deietegol i drawsnewid i fwyta llai o gig a chynnyrch llaeth, a gwell cig a chynnyrch llaeth. Mae'r Cynlluniau Rheoli Tir Amgylcheddol yn gyfle cyffrous i gael amaeth sy'n ystyriol o natur yn Lloegr; o'i hwyluso'n gywir gellid gwneud cynnydd sylweddol ar well cig a chynnyrch llaeth. Fodd bynnag, mae'r broses o gyflwyno'r cynllun ar hyn o bryd wedi arwain at ddryswch, manteision anghyfartal i ffermwyr a dyraniad annigonol o adnoddau a chyllid. Mae'r methiant i roi Strategaeth Fwyd Genedlaethol ar waith, ynghyd â ddiffyg cynllun defnydd tir, a methu targedau ar gyfer deiet cynaliadwy mewn polisi newid yn yr hinsawdd, yn peri risg na fydd manteision posibl Cynlluniau Rheoli Tîr Amgylcheddol yn cael eu gwireddu. I ychwanegu at hyn, mae'r diffyg integreiddio rhwng polisïau ar ochr y cyflenwad ac ochr y galw yn Lloegr yn rhwystr sylweddol i greu amgylchedd galluogi ar gyfer deietau cynaliadwy ac iach.




# Y system fwyd yn Lloegr






















Cyfeiriadau ar dudalennau 39 a 40

# Polisi bwyd yn Lloegr




## Cyflawni strategaeth fwyd a ffermio trawsadrannol


*Strategaeth Fwyd Genedlaethol: Yn rhannol*

*Strategaeth Fwyd Leol: Nac oes*

Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) Llywodraeth y DU ei Phapur Gwyn Strategaeth Bwyd ar gyfer Lloegr mewn ymateb i'r adolygiad annibynnol, y Strategaeth Fwyd Genedlaethol, gan ei phrif gynghorydd bwyd, Henry Dimbleby.

Rhai o'r mesurau arfaethedig sy'n cael eu croesawu yw datblygu fframwaith defnydd tir newydd (er bod oedi sylweddol wedi bod), cais am dystiolaeth ar ddefnyddio ychwanegion bwyd i leihau allyriadau methan a lansio'r Bartneriaeth Tryloywder Data Bwyd. Mae ffocws y strategaeth ar arloesi protein amgen yn gyfle a allai ddatblygu i fod yn gam cadarnhaol arall, er mai cyfyngedig yw ei uchelgais. Fodd bynnag, nid yw strategaeth Fwyd Llywodraeth y DU yn mynd mor bell â mabwysiadu'r polisïau uchelgeisiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gynigir yn yr adolygiad, gan ganolbwyntio yn lle hynny ar ymgynghori pellach ac atebion sy'n dibynnu ar dechnoleg.

At ei gilydd, nid yw'r Strategaeth Fwyd yn mynd i'r afael o gwbl â rhai meysydd hollbwysig, o fynd i'r afael â mynediad annigonol at fwyd iach, i ordewdra yn ystod plentyndod. Nid yw'n glir beth allai'r effaith hirdymor fod, gan nad yw'r strategaeth yn cynnwys ymrwymiadau na thargedau rhwymol, na'r fframwaith cadarn y byddai Bil Bwyd wedi'i ddarparu wrth osod yr argymhellion mewn cyfraith.



## Mae canllawiau deietegol cynaliadwy ac iach yn sail i bob datblygiad polisi

*Diffiniad o ddeiet cynaliadwy: Ni roddir diffiniad yn strategaeth y llywodraeth*

*Canllawiau ar faint o gig coch a chig wedi'i brosesu i'w fwyta: Y cyngor yw 70g, ni ddylai'r uchafswm fod yn fwy na 90g. Nid oes argymhelliad swyddogol ar faint o gig gwyn i'w fwyta.*

Daw polisi deietegol yn Lloegr o dan gylch gwaith Swyddfa Gwella Iechyd a Gwahaniaethau (OHIC) y DU ac mae'n defnyddio'r Canllaw Bwyta'n Dda fel sail ar gyfer canllawiau deietegol.

Nid oes diffiniad o beth yw deiet cynaliadwy o fewn polisïau Lloegr, ac nid yw'n sail iddynt chwaith. Y tu hwnt i'r Canllaw Bwyta'n Dda, ychydig iawn o ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i ddeiet iach a chynaliadwy wrth ddatblygu polisi. Ni aeth y Strategaeth Fwyd Genedlaethol mor bell â lleihau faint o gig y dylid ei fwyta a sicrhau bod polisi cyhoeddus yn cefnogi'r broses o drawsnewid i ddeiet cynaliadwy. Mae ffocws deietegol yn dal wedi'i wreiddio mewn bodloni argymhellion maeth sylfaenol.

Nid oes gofyniad penodol i archwilio polisïau ar sail yr effaith y byddent yn ei chael ar fynediad at 'ddiet iach a chynaliadwy'. Y tu hwnt i bolisi iechyd y cyhoedd, fel y nodir yn strategaeth 2020-2025 *Public Health England*, ychydig iawn o ystyriaeth a roddir i ddeietau iach wrth ddatblygu polisi.



## Normaleiddio deietau cynaliadwy drwy gaffael cyhoeddus

*Strategaeth caffael cyhoeddus ar gyfer cyflenwi domestig: Bwriad i gaffael 50% o fwyd a diod o ffynonellau lleol*

Mae'r Government Buying Standards for Food and Catering Services (GBSF) yn orfodol ar gyfer ysbytai *NHS England*, ac argymhellir yn gryf bod awdurdodau contractio eraill (e.e. ysgolion, prifysgolion, awdurdodau lleol) yn defnyddio'r safonau hyn. Ganol 2023, lansiodd sefydliad caffael cyhoeddus mwyaf y DU, Gwasanaeth Masnachol y Goron, '*Buying Better Food and Drink*'. Nod y cytundeb hwn yw cefnogi safonau cynaliadwyedd, ansawdd bwyd a lles drwy ganiatáu i fusnesau bach a chanolig gael mynediad at gontractau'r llywodraeth sy'n bodloni'r GBSF. Mae hefyd yn ceisio lleihau gwastraff bwyd a deunydd pecynnu, lleihau taith bwyd, buddsoddi mewn cymunedau lleol a gwella cydraddoldeb ac amrywiaeth, a lleihau risgiau o gaethwasiaeth fodern. Gwerth cychwynnol y contract yw £100 miliwn dros gyfnod o 4 blynedd, cyfran gymharol fach o'r gwariant blynyddol ar gaffael bwyd yn Lloegr. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu ar ôl y cyfnod peilot cychwynnol o 4 blynedd.

Fel rhan o'r Strategaeth Fwyd, cyhoeddwyd ymgynghoriad ar ddiweddariadau i'r GBSF yn 2022. Mae'r diweddariadau arfaethedig yn canolbwyntio ar dri maes: Cyrchu bwyd, dewisiadau bwydlen iach a chynaliadwy, a gwasanaethau arlwyo cynaliadwy. Mae'r categorïau hyn yn cynnwys y gofynion i o leiaf 50% o'r gwariant ar fwyd fod ar fwyd a gynhyrchir yn lleol a dylai o leiaf 20% o'r gwariant fod ar fwyd a ardystiwyd i safonau cynhyrchu amgylcheddol uwch, er enghraifft bwyd ag ardystiad LEAF neu fwyd organig. Mae'n siomedig nad yw'r newidiadau i ganllawiau deiet na dewisiadau bwydlen yn cynnwys gostyngiad o ran faint o cig y dylid ei fwyta oherwydd , ac er ei fod yn arf pwysig, nid yw bwyd lleol bob amser yn cyfateb i fwyd cynaliadwy neu iach.

Beth bynnag fo canlyniad yr ymgynghoriad, heb ymrwymiadau rhwymol na chyllid ychwanegol ar gyfer awdurdodau contractio nad ydynt yn rhwym wrth y GFBS, e.e. ysgolion, prifysgolion ac awdurdodau lleol, nid yw'n glir beth fydd effaith hyn.




## Cynnydd prif ffrwd mewn bwyd ysgol

*Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn: Derbyn, blynyddoedd 1 a 2*

*Gofynion o ran Ffrwythau a Llysiau yn yr ysgol gynradd: O leiaf 1 dogn o lysiau ac 1 dogn o ffrwythau gyda phob pryd*

*Gofynion cig yn yr ysgol gynradd: Rhaid gweini cig coch ar o leiaf 3 ddiwrnod yr wythnos ac nid oes uchafswm. Ni cheir gweini cynhyrchion cig fwy nag unwaith yr wythnos.*

*Gofynion o ran Ffrwythau a Llysiau yn yr ysgol uwchradd: O leiaf 1 dogn o lysiau ac 1 dogn o ffrwythau gyda phob pryd*
*Gofynion cig yn yr ysgol uwchradd: Rhaid gweini cig coch neu ddofednod ar o leiaf 3 diwrnod yr wythnos. Ni cheir gweini cynhyrchion cig fwy na dwywaith yr wythnos.*

Mae Prydau Ysgol Am Ddim i Bob Plentyn ar gael i bob disgybl ysgol gynradd am y tair blynedd gyntaf. Fodd bynnag, yn wahanol i'r Alban a Chymru, ni wnaed unrhyw ymrwymiad i ehangu'r system prydau ysgol am ddim i ddisgyblion o oedranau ysgol eraill.

Yn Lloegr, mae safonau bwyd mewn ysgolion yn cynnwys gofyniad am fwy o seigiau cig a llai o ffrwythau a llysiau na gwledydd eraill y DU, a dyma'r unig safonau yn y DU i beidio â gosod uchafswm ar y dognau o gig.

I ryw raddau, mae Llywodraeth y DU wedi cydnabod y canlyniadau iechyd gwael sy'n gysylltiedig â deiet i blant yn Lloegr, gan gyflwyno cynlluniau fel *Better Health, Healthier Families*. Fodd bynnag, mae'r safonau bwyd ysgol presennol yn dangos nad oes digon o feddwl cydgysylltiedig, gan fethu â chofnodi'r rôl y gall bwyd ysgol ei chwarae wrth ddarparu deiet iach a chynaliadwy.

Nid yw'r gwaith o gydymffurfio â'r Safonau yn cael ei fonitro'n dda; dim ond 25% o ysgolion y wladwriaeth yn Lloegr y gwyddom eu bod yn cydymffurfio. Blaenoriaeth polisi Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yw sicrhau cydymffurfiad â Safonau Bwyd Ysgolion, yn enwedig o ran bodloni'r argymhellion maeth ar gyfer plant, o ystyried y cyfraddau cydymffurfio gwael ar hyn o bryd. Mae cynllun peilot cydymffurfio ar waith ar draws 18 awdurdod lleol ledled Lloegr fel rhan o'r agenda codi'r gwastad. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Adran Addysg sy'n rhedeg y cynllun peilot hwn, a'i brif nod yw canfod a phrofi dulliau newydd o gefnogi ysgolion ledled Lloegr i gydymffurfio â Safonau Bwyd Ysgolion presennol.





# Ailgydbwyso polisi amaeth tuag at gynhyrchu planhigion a gwella cig a chynnyrch llaeth

*Polisi Amaeth: Oes*

Fel rhan o'r *Agricultural Transition Plan 2021-2027*, bydd Taliadau Uniongyrchol heb eu targedu, ar sail ardal, o Bolisi Amaeth Cyffredin yr UE yn cael eu dileu'n raddol ac yn lle hynny bydd grantiau a thaliadau cymhorthdal parhaus yn cael eu cynnig i gefnogi cynhyrchiant ar y ffermydd, canlyniadau amgylcheddol a lles anifeiliaid. Nod y taliadau hyn yn y dyfodol fydd gwella cynhyrchiant ffermydd, mabwysiadu technoleg ac arferion arloesol a gwella'r hinsawdd, yr amgylchedd ac iechyd a lles anifeiliaid. Er bod manylion am sut mae'r Cynllun Pontio yn cyd-fynd â'r Cynllun Amgylchedd 25 mlynedd a'r cynlluniau addasu i'r hinsawdd Sero Net, nid oes sôn am ailgydbwyso polisi amaeth tuag at gynhyrchu planhigion, na lleihau niferoedd da byw.

Mae'r polisi amaeth newydd ar gyfer Lloegr yn canolbwyntio ar y cynllun Rheoli Tir yn Amgylcheddol (*ELMs*) sy'n disodli cymorthdaliadau Polisi Amaeth Cyffredin yr UE ac sy'n cynnwys y Cymhelliant Ffermio Cynaliadwy (SFI), Stiwardiaeth Cefn Gwlad (CS), ac Adfer Tirlun. Drwy gynlluniau Rheoli Tir yn Amgylcheddol, mae ffermwyr yn cael eu talu i ddarparu 'nwyddau cyhoeddus', gan gynnwys gwell ansawdd dŵr, bioamrywiaeth, lliniaru newid yn yr hinsawdd ac iechyd a lles anifeiliaid. Os caiff ei weithredu'n gywir, gyda digon o gyllid a buddsoddiad mewn cyfalaf cymdeithasol i ffermwyr, gallai'r cynllun symud amaethyddiaeth yn Lloegr tuag at gynhyrchu cig a llaeth gwell. Fodd bynnag, mae *ELMs* yn methu â chyflawni'r nodau hyn ac mae wedi cael ei feirniadu'n eang ar sail dyraniad cyllid annigonol, manteision anwastad rhwng mathau a lleoliadau fferm, a diffyg cymorth a gynigir i ffermwyr. Mae galwadau mawr wedi'u gwneud am welliannau i'r cynllun.

Nid yw'r Strategaeth Fwyd yn cynnwys mesurau i ailgydbwyso cynhyrchiant amaethyddol yn Lloegr tuag at fwy o blanhigion. Er gwaethaf argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd, nid oes nod penodol i leihau cynhyrchu cig a chynnyrch llaeth, yn hytrach mae ffocws ar fuddsoddi ac arloesi i gyfyngu ar ganlyniadau amgylcheddol amaethyddiaeth sy'n rhoi pwyslais ar gig. Mae'r dull hwn yn cael ei rannu yn y Strategaeth Sero Net, y Cynllun Cyflawni Cyllideb Garbon, a'r Drydedd Rhaglen Addasiad Cenedlaethol sy'n amlinellu Cynllun Gweithredu Amaeth y Llywodraeth. Mae'r Cynllun Cyflawni Cyllideb Garbon yn dibynnu'n helaeth ar atebion sy'n seiliedig ar effeithlonrwydd, fel cynnyrch porthiant sy'n atal methan, ac atebion sy'n seiliedig ar natur, fel gwella iechyd y pridd. Rhestrir datblygu cynhyrchiant protein cynaliadwy fel polisi y 'gellid' ei ddarparu. Yn yr un modd, mae'r Rhaglen Addasu Genedlaethol yn hyrwyddo cynlluniau Rheoli Tir yn Amgylcheddol, ond nid yw'n cyfeirio at gynyddu faint o blanhigion sy'n cael eu cynhyrchu, na lleihau faint o gynhyrchion da byw sy'n cael eu cynhyrchu neu eu bwyta. Mae'r methiant i grybwyll deietau cynaliadwy mewn cynlluniau amaethyddol a phontio i'r hinsawdd yn dangos diffyg ystyriaeth o ran sut y gellir ymgorffori manteision gwell cig a llaeth a gynhyrchir o dan y cynlluniau Rheoli Tir yn Amgylcheddol yn y system fwyd gyfan.

Ymrwymwyd i Strategaeth Garddwriaeth ar gyfer Lloegr yn Strategaeth Fwyd Llywodraeth y DU 2022, ond yna cafodd ei diddymu yn 2023 ac roedd llawer yn teimlo fod hyn yn achos o fethu cyfle i alluogi diwygio deiet a manteision economaidd ehangach. Ailadroddwyd yr angen am gynllun twf garddwriaeth yn adroddiad Pwyllgor Sector Garddwriaethol Tŷ'r Arglwyddi yn 2023.



## Datblygu cynllun defnydd tir integredig


*Strategaeth defnydd tir: Nac oes*

*Targed coedwigo: Targed y DU o 30,000 ha erbyn 2025, Lloegr i dreblu'r gyfradd plannu coed*

Mae Strategaeth Fwyd Genedlaethol Llywodraeth y DU yn cydnabod rôl newid defnydd tir o ran cyrraedd targedau sero net, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i DEFRA gyhoeddi fframwaith defnydd tir yn 2023, ac mae wedi methu â gwneud hynny. Ochr yn ochr â rhoi'r gorau i'r strategaeth arddwriaeth yn 2023, mae diffyg polisi sy'n ymwneud â diwygio defnydd tir fel rhan o ddiwygio'r system fwyd.

Cynlluniau Rheoli Tir yn Amgylcheddol yw'r sbardun y mae'r Llywodraeth yn ei ddefnyddio i gydbwyso'r pwysau sy'n cystadlu â'i gilydd a gwireddu buddiannau cynhyrchu bwyd a nodau amgylcheddol. Mae'r tri chynllun yn cynnwys cymhellion amrywiol i ddiogelu'r ecosystemau sydd fwyaf gwerthfawr o ran eu cyfraniad at natur, er enghraifft mawndiroedd a choetiroedd. Nid yw Llywodraeth y DU wedi gosod targed pendant eto ar gyfer cyfraniad Lloegr at uchelgais y DU o gael 30,000 ha o goetiroedd erbyn 2025, ond mae wedi ymrwymo i dreblu'r gyfradd plannu coed yn Lloegr erbyn 2025. Mae'r Cynllun Gweithredu Plannu Coed yn tynnu sylw at y cyfraniad sylweddol y gall amaethu ei wneud i gyrraedd y targed hwn, a'r nodau amgylcheddol ehangach.

Mae'r Rhaglen Data Tir Genedlaethol wedi cynnal cynlluniau peilot i gefnogi'r gwaith o ddylunio a datblygu fframwaith defnydd tir lleol a datblygu'r ddeialog defnydd tir rhwng llunwyr polisi, modelwyr defnydd tir, y llywodraeth a'r byd academaidd. Y nod yw archwilio a dangos sut y gall data a modelau gefnogi penderfyniadau defnydd tir yn well ar wahanol raddfeydd yn y DU. Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion wedi cael eu cyhoeddi yn *Finding Common Ground* ac maent i fod i gael eu defnyddio fel sail i'r Fframwaith Defnydd Tir sydd ar y gweill, er bod oedi sylweddol wedi bod o ran hynny.




# Crynodeb



Datganoli yw'r allwedd i ddatgloi diwygiadau i system fwyd y DU



Nid oes cysondeb o ran deiet iach a chynaliadwy yn y gwledydd, ac nid yw polisïau'n gwneud fawr ddim i helpu



Mae angen strategaethau bwyd i ail-alinio pob agwedd ar y system fwyd

Nod *Eating Better*, drwy'r adroddiad hwn, yw bod yn fan cychwyn ar gyfer ymgysylltu pellach â sefydliadau bwyd a ffermio ar draws pedair gwlad y DU i sbarduno ymdrechion i gyflwyno newidiadau mwy uchelgeisiol i ddiwygio ein deiet. Drwy asesu yn erbyn ein map, gall y gynghrair *Eating Better* a rhanddeiliaid ehangach ddathlu cynnydd a nodi meysydd i'w gwella ledled y DU. Mae gwir fomentwm ar lawr gwlad o ran sicrhau newid gwirioneddol a phendant i'r mathau o fwydydd rydyn ni'n eu cynhyrchu a'u bwyta yn y DU. Os caiff ei wneud yn gywir, gallai polisi'r llywodraeth, drwy'r camau ar y map a aseswyd yn yr adroddiad hwn, chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gefnogi'r ymdrechion hynny a chreu ymdrech gydlynol ar lefel llywodraethol.

# Atodiad

## Diffiniadau

| | |
|---|---|
| Canran o arwynebedd tir amaethyddol y DU | Cyfanswm arwynebedd tir amaethyddol (ac eithrio tir comin) fesul gwlad fel canran o gyfanswm y tir amaethyddol (ac eithrio tir comin) yn y DU. |
| Cyfanswm incwm o ffermio (TIFF) | Cyfanswm yr elw o bob busnes ffermio ar sail blwyddyn galendr. Mae'n mesur yr enillion i bob entrepreneur am eu gwaith rheoli, eu llafur a'r cyfalaf a fuddsoddwyd ganddynt. |
| Tir a ddefnyddir ar gyfer amaeth | Arwynebedd y tir ar ddaliadau amaethyddol ym mhob un o wledydd y DU. Mae hyn yn cynnwys yr holl dir hawliau unigol gan gynnwys tir y plannwyd arno, tir âr segur a thir a neilltuwyd, glaswelltir dros dro, glaswelltir parhaol, tir pori garw hawl unigol, ac unrhyw dir arall. Nid yw'n cynnwys tir comin. |
| Tir a ddefnyddir fel glaswelltir ac fel tir pori garw | Glaswelltir dros dro/ glaswellt o dan 5 oed, glaswelltir parhaol/ glaswellt dros 5 oed, a glaswelltir garw hawl unigol. Nid yw'n cynnwys tir comin a borir. |
| Tir a ddefnyddir fel tir âr gan gynnwys garddwriaeth | Pob tir âr gan gynnwys tir segur, tir a neilltuwyd a'i blannu. Mae'n cynnwys garddwriaeth (llysiau a ffrwythau a dyfir yn yr awyr agored, stoc wydn o blanhigfa a rhai o dai gwydr). |
| Tir arall gan gynnwys coetiroedd | Coetiroedd ar y ffermydd, adeiladau ar dir ffermydd nad ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion amaethyddol. |
| Cyfanswm y gwartheg | Pob buwch a llo. |
| Cyfanswm y defaid | Pob dafad ac oen. |
| Cyfanswm y moch | Pob mochyn a phorchell. |
| Cyfanswm y dofednod | Pob cyw iâr (ieir, cywennod, ffowls magu, brwyliaid), tyrcwn, gwyddau, hwyaid ac adar eraill. Mae 'cywennod' yn ieir ifanc dan 1 oed, ac nid ydynt wedi dechrau dodwy wyau eto. Brwyliaid yw unrhyw gyw iâr sy'n cael ei fridio a'i fagu'n benodol ar gyfer cynhyrchu cig. |
| Canran y rhywogaethau dan fygythiad | Canran y rhywogaethau sy'n dod o dan Gategorïau Restr Goch yr IUCN o rywogaethau Agored i Niwed, Mewn Perygl ac mewn Perygl Difrifol, gan eu dosbarthu fel rhai sydd mewn perygl o ddiflannu'n llwyr o Brydain Fawr. I weld y dulliau, edrychwch ar adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2023. |
| Canran yr aelwydydd sy'n profi ansicrwydd bwyd | Canran yr ymatebwyr i'r arolwg Bwyd a Chi (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) a'r *Trussell Trust Hunger in Scotland* (Alban) a ddosbarthwyd fel rhai â diogelwch bwyd 'isel' neu 'isel iawn'. Lle mae diogelwch bwyd isel yn cael ei nodweddu gan ostyngiadau mewn ansawdd ac amrywiaeth deietegol, nodweddir diogelwch bwyd isel iawn gan amhariadau mewn patrymau bwyta a bwyta llai o fwyd. |
| Canran y boblogaeth oedolion sydd dros bwysau neu'n ordew | Canran y boblogaeth oedolion (16 oed neu hŷn) sy'n byw gyda gordewdra neu dros bwysau, lle mae'r diffiniad o ordewdra yw Mynegai Mas y Corff (BMI) o 30 neu uwch, a'r difiniad o fod dros bwysau yw bod â BMI rhwng 25 a 30. |
| Canran yr oedolion sy'n bwyta neu'n yfed 5 ffrwyth neu lysieuyn y dydd | Mae oedolion yn cyfeirio at unigolion dros 16 oed, a'r diffiniad o ddogn o ffrwythau yw 80g o ffrwythau neu lysiau. |
| Cynnyrch cig | "Mae cynhyrchion a broseswyd yn deillio o brosesu cig neu brosesu pellach i gynhyrchion o'r fath a broseswyd, fel bod yr arwyneb torri yn dangos nad oes gan y cynnyrch bellach nodweddion cig ffres" Rheoliad yr UE a Ddargedwir 853/2004. Gall gynnwys byrgyrs, selsig ac unrhyw gynnyrch sy'n seiliedig ar gig sydd wedi'i siapio neu wedi'i orchuddio e.e. nygets cyw iâr a goujons, ond nid yw'n gyfyngedig i hynny. |

# Atodiad

## Data

| Dangosydd | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon | Lloegr |
|---|---|---|---|---|
| Canran o arwynebedd tir amaethyddol y DU | 33% | 10% | 6% | 51% |
| Canran o gyfanswm incwm y DU a ddaw o ffermio | 15% | 6% | 9% | 68% |
| Cyfanswm incwm o ffermio (£) | 791,000,000 | 322,000,000 | 456,000,000 | 3,552,000,000 |
| Tir a ddefnyddir ar gyfer amaeth (ha) | 5,329,957 | 1,767,700 | 1,042,318 | 8,998,612 |
| Canran o gyfanswm y tir a ddefnyddir ar gyfer amaeth | 69% | 90% | 75% | 69% |
| Canran y tir a ddefnyddir fel glaswelltir ac fel tir pori garw | 78% | 85% | 92% | 48% |
| Canran y tir amaethyddol a ddefnyddir fel tir âr gan gynnwys ar gyfer garddwriaeth | 10% | 6% | 5% | 45% |
| Canran y tir amaethyddol a ddefnyddir ar gyfer defnydd tir arall gan gynnwys coetiroedd | 12% | 9% | 3% | 6% |
| Nifer y gwartheg | 1.68 miliwn | 1.1 miliwn | 1.7 miliwn | 5.1 miliwn |
| Nifer y defaid | 6.61 miliwn | 8.69 miliwn | 2 miliwn | 14.4 miliwn |
| Nifer y dofednod | 11.7 miliwn | 10.3 miliwn | 25.6 miliwn | 131 miliwn |
| Nifer y moch | 344,000 | 24,800 | 682,339 | 3.6 miliwn |
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr o amaeth (MtCO2e) | 7.8 | 5.5 | 6.2 | 27.3 |
| Canran y rhywogaethau dan fygythiad | 11% | 18% | 12% | 13% |
| Canran o gyfanswm y nwyon tŷ gwydr a ddaw o amaeth | 19% | 16% | 28% | 9% |
| Canran yr aelwydydd sy'n profi ansicrwydd bwyd: | 17% | 26% | 22% | 20% |
| Canran y boblogaeth oedolion sydd dros bwysau neu'n ordew | 67% | 61% | 65% | 64% |
| Canran yr oedolion sy'n bwyta neu'n yfed 5 ffrwyth neu lysieuyn y dydd | 21% | 29% | 47% | 55% |

# Atodiad

## Cyfeiriadau


### Yr Alban

*Devenish K. The Farming Sector in Wales - Research Briefing; 2022 [Available from: https://research.senedd.wales/media/iuch3jz1/22-47-farming-sector-in-wales.pdf]*

*Ipsos and The Trussell Trust. Hunger in Scotland; 2023 [Available from: https://www.trusselltrust.org/wp-content/uploads/sites/2/2023/06/2023-Hunger-in-Scotland-report-AW-web.pdf]*

*Scottish Government. Diet and healthy weight: monitoring report 2020; 2020 [Available from: https://www.gov.scot/publications/diet-healthy-weight-monitoring-report-2020/pages/6/]*

*Scottish Government. Results from the Scottish Agricultural Census: June 2023; 2023 [Available from: https://www.gov.scot/publications/results-scottish-agricultural-census-june-2023/]*

*Scottish Government. Results from the Scottish Agricultural Census: June 2021; 2021 [Available from: https://www.gov.scot/publications/results-scottish-agricultural-census-june-2021/]*

*Scottish Government. Scottish Greenhouse Gas Statistics 2021; 2023 [Available from: https://www.gov.scot/publications/scottish-greenhouse-gas-statistics-2021/]*

*Scottish Government. The Scottish Health Survey 2022 – volume 1: main report; 2023 [Available from: https://www.gov.scot/publications/scottish-health-survey-2022-volume-1-main-report/pages/12/]*

*State of Nature Partnership. State of Nature; 2023 [Available from: https://stateofnature.org.uk/wp-content/uploads/2023/09/TP25999-State-of-Nature-main-report_2023_FULL-DOC-v12.pdf]*

### Cymru

*Devenish K. The Farming Sector in Wales - Research Briefing; 2022 [Available from: https://research.senedd.wales/media/iuch3jz1/22-47-farming-sector-in-wales.pdf]*

*Garland L, Jones L, Szanto C, et al. Air Pollutant Inventories for England, Scotland, Wales, and Northern Ireland: 2005-2020; 2022 [Available from: https://uk-air.defra.gov.uk/assets/documents/reports/cat09/2210251052_DA_Air_Pollutant_Inventories_2005-2020_FINAL_v1.2.pdf]*

*Horton S, Gallop K, Smith P, et al. Food and You 2: Wave 5 Technical Report; 2023 [Available from: https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/FY2%20Wave%205%20Technical%20report.pdf]*

*State of Nature Partnership. State of Nature; 2023 [Available from: https://stateofnature.org.uk/wp-content/uploads/2023/09/TP25999-State-of-Nature-main-report_2023_FULL-DOC-v12.pdf]*

*Welsh Government. National Survey for Wales headline results: April 2022 to March 2023; 2023 [Available from: https://www.gov.wales/national-survey-wales-headline-results-april-2022-march-2023-html#126278]*

*Welsh Government. Survey of agriculture and horticulture; 2023 [Available from: https://www.gov.wales/survey-agriculture-and-horticulture-june-2023-html#134620]*

# Atodiad

## Cyfeiriadau

### Gogledd Iwerddon


*Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs. The Agricultural Census in Northern Ireland; 2023 [Available from: https://www.daera-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/daera/Agricultural%20Census%202023%20Publication.pdf]*

*Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs. Northern Ireland Greenhouse Gas Emissions 2021; 2021 [Available from: https://www.daera-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/daera/NI%20Greenhouse%20Gas%20Statistics%201990-2021-Report.PDF]*

*Department of Health. Health Survey (NI): First Results 2019/20; 2020 [Available from: https://www.health-ni.gov.uk/news/health-survey-ni-first-results-201920]*

*Department of Health. Health Survey (NI): First Results 2022/23; 2023 [Available from: https://www.health-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/health/hsni-first-results-22-23.pdf]*

*Devenish K. The Farming Sector in Wales - Research Briefing; 2022 [Available from: https://research.senedd.wales/media/iuch3jz1/22-47-farming-sector-in-wales.pdf]*

*Horton S, Gallop K, Smith P, et al. Food and You 2: Wave 5 Technical Report; 2023 [Available from: https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/FY2%20Wave%205%20Technical%20report.pdf]*

*State of Nature Partnership. State of Nature; 2023 [Available from: https://stateofnature.org.uk/wp-content/uploads/2023/09/TP25999-State-of-Nature-main-report_2023_FULL-DOC-v12.pdf]*


### Lloegr


*Department for Digital, Culture, Media and Sport. Healthy eating among adults; 2023 [Available from: https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/health/diet-and-exercise/healthy-eating-of-5-a-day-among-adults/latest/]*

*Department of Environment, Food & Rural Affairs. Agricultural land use in England at 1 June 2023; 2023 [Available from: https://www.gov.uk/government/statistics/agricultural-land-use-in-england/agricultural-land-use-in-england-at-1-june-2023]*

*Department of Environment, Food & Rural Affairs. Structure of the agricultural industry in England and the UK at June; 2024 [Available from: https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/structure-of-the-agricultural-industry-in-england-and-the-uk-at-june]*

*Devenish K. The Farming Sector in Wales - Research Briefing; 2022 [Available from: https://research.senedd.wales/media/iuch3jz1/22-47-farming-sector-in-wales.pdf]*

*Garland L, Jones L, Szanto C, et al. Air Pollutant Inventories for England, Scotland, Wales, and Northern Ireland: 2005-2020; 2022 [Available from: https://uk-air.defra.gov.uk/assets/documents/reports/cat09/2210251052_DA_Air_Pollutant_Inventories_2005-2020_FINAL_v1.2.pdf]*

*Horton S, Gallop K, Smith P, et al. Food and You 2: Wave 5 Technical Report; 2023 [Available from: https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/FY2%20Wave%205%20Technical%20report.pdf]*

*NHS England. Health Survey for England, 2021: Data tables; 2022 [Available from: https://digital.nhs.uk/data-and-information/publications/statistical/health-survey-for-england/2021/health-survey-for-england-2021-data-tables]*

*State of Nature Partnership. State of Nature; 2023 [Available from: https://stateofnature.org.uk/wp-content/uploads/2023/09/TP25999-State-of-Nature-main-report_2023_FULL-DOC-v12.pdf]*

# Diolchiadau

Mae'r prosiect hwn yn seiliedig ar adolygiad o'r dystiolaeth a llenyddiaeth gyhoeddedig a gynhaliwyd gan Andrew Stark a Myrtle Gregory o *Eating Better*. Rydym yn ddiolchgar i'r partneriaid canlynol sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r papur briffio hwn:

*Nourish Northern Ireland*
*Food Sense Wales*
*Nourish Scotland*

Diolch i Lachlan McKessar, Matthew Gibson a Simon Billing am gyfraniadau ac i Charlotte Jones (*Eating Better*) ar gyfer dylunio. Diolch yn fawr i CYMEN am gwasanaeth cyfieithu a Sian-Elin Davies am brawfddarllen.

*Eating Better is a movement for change of sixty organisations working to accelerate the transition from producing and eating too much meat and dairy to a fairer, healthier and more sustainable food system that is better the environment, our health, for land use, animal welfare and social justice.*